# W5D

## Warws Ecséis
## Nodyn gohirio ar gyfer nwyddau alcohol

# Nodiadau ar gyfer llenwi ffurflen W5D

Mae'r ffurflen hon ar gyfer Tollau Ecséis a Threth ar Werth (TAW) ar nwyddau alcohol yn unig. Llenwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob perchennog. Mae'n rhaid i'r holl gofnodion fod yn glir. Peidiwch â throsysgrifo, rhwbio allan na defnyddio hylif cywiro ar unrhyw wallau. Mae'n rhaid i chi roi llinell drwy unrhyw newidiadau a threfnu i'r llofnodwr awdurdodi'r newidiadau hynny gyda blaenlythrennau ei enw. Mae'n rhaid i chi hefyd roi llinell trwy unrhyw resi sydd heb eu defnyddio.

Os ydych wedi dewis y system amserlennu, llenwch y ffurflen hon ddwywaith y mis ar y 14eg ac ar ddiwedd y mis. Trefnwch yr holl drafodiadau yn ôl categori'r math o dreth a nodwch y dyddiadau a gwmpesir, er enghraifft, 01 04 97 i 14 04 97, 15 04 97 i 30 04 97. Wrth ddefnyddio'r ffurflen yn ddyddiol, nodwch ddyddiad y diwrnod ym mhob un o'r blychau ar gyfer nodi dyddiad.

**Rhif Cofrestru**

Llenwch y ffurflen gan ddefnyddio'r rhif cofrestru TAW (bydd hyn yn cael ei ddisodli gan system rifo genedlaethol newydd i fasnachwyr).

**Cod warws**

Dyma'ch rhif awdurdodi warws (i'w ddiddymu'n raddol pan gyflwynir y system rhifo newydd i fasnachwyr).

**Cyfeirnod olynol**

Mae'n rhaid i bob ffurflen W5D rydych yn ei chyflwyno gynnwys cyfeirnod olynol (CRN) unigryw. Ni chaiff y CRN fod yn fwy na 7 digid ac mae'n rhaid iddo gynnwys rhifau yn unig (ni chewch ddefnyddio unrhyw gymeriadau neu fylchau eraill yn y CRN). Dylech rifo'r ffurflenni W5D yn olynol mewn cyfres flynyddol, gan ddechrau o gyfnod cyfrifyddu stoc cyntaf ceidwad y warws yn y flwyddyn. Er enghraifft, yn ystod cyfnod stoc 1, nodwch y rhifau 11234, 11235, 11236 ac yn blaen, ar y ffurflenni; yn ystod cyfnod stoc 2, nodwch y rhifau 21234, 21235, 21236 ac yn y blaen, ar y ffurflenni. Ni ddylid defnyddio CRN dyblyg yn yr un cyfnod. Dylid defnyddio dilyniant rhifo unigryw ac ar wahân ar gyfer nodynnau talu arian parod (W5) a nodynnau gohirio (W5D), ac ar gyfer pob warws a weithredir gan geidwad
y warws.

**Rhif y cyfrif gohirio (DAN)**

Gallwch dim ond defnyddio DAN y perchennog neu geidwad y warws. Mae'n rhaid i chi ragddodi llythyren i'r DAN i ddangos y canlynol:

D – y datganydd yw ceidwad y warws a'r perchennog
A – dyma DAN ceidwad y warws nad yw'n berchennog y nwyddau
B – dyma DAN y perchennog ond ceidwad y warws sy'n amgáu awdurdod penodol i ddefnyddio'r DAN ar yr achlysur hwn
C – dyma DAN y perchennog ond mae gan geidwad y warws yr awdurdod i'w ddefnyddio

**Cyfrifiad y Doll Ecséis**

Ceir manylion y mathau o drethi a chyfraddau toll yng Nghyfrol 1, Rhan 12 o Dariff Integredig y Deyrnas Unedig. O dan y golofn nifer:

- ar gyfer pob math o alcohol (cwrw, gwin, seidr, gwirodydd a chynhyrchion eraill eplesedig), nodwch y nifer mewn litrau o alcohol pur (lpa) - dyma'r litrau o gynnyrch wedi'u lluosi â chryfder yr abv, er enghraifft 2000 litr o gynnyrch @ 40% o gryfder, nodwch 800 litr fel y nifer (2000 x 40%)
- ar gyfer cynhyrchion gwin, sylwch fod yn rhaid i win â chryfder rhwng 11.5% a 14.5% (yn gynhwysol) ddefnyddio 12.5% fel cryfder tybiedig rhwng 1 Awst 2023 a 31 Ionawr 2025 (dyddiadau'n gynhwysol) - er enghraifft ar gyfer 1000 litr o 13.5% o win, nodwch 125 litr fel y nifer (1000 x 12.5%)

**Gwerth ar gyfer TAW**

Os yw'r nwyddau, yn ystod eu cyfnod yn y warws, wedi bod yn destun cyflenwad, neu wasanaethau ychwanegol megis storio neu drin, gall hyn effeithio ar y sefyllfa TAW. Gallwch ddod o hyd i arweiniad manwl yn 'Imports (Hysbysiad TAW 702)'. Sylwer - mae'n rhaid i'r gwerth ar gyfer TAW gynnwys Toll Ecséis ym mhob achos (a Tholl Dramor os yn berthnasol).

Os ydych wedi cofnodi gorddatganiadau a thanddatganiadau ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu presennol (hynny yw, y cyfnod sy'n rhedeg o 15fed un mis calendr i 14eg y mis nesaf) defnyddiwch ffurflenni ar wahân â phenawdau clir, â'r un cyfeirnodau olynol, i gofnodi'r wybodaeth. Yna, bydd angen i chi eu hatodi i'r brif ffurflen. Gellir ond gwrthbwyso yn erbyn gwall cod treth o'r un fath neu yn erbyn cofnod TAW. Mae hefyd angen i chi nodi manylion cryno ar gyfer y rheswm dros y gwall, gan groesgyfeirio at ddogfennau eraill perthnasol.

Os ydych wedi cofnodi tanddatganiadau neu orddatganiadau ar gyfer cyfnod cyfrifyddu blaenorol, mae'n rhaid i chi glirio'r tandaliadau yn syth drwy dalu'r Ganolfan Prosesu Gwarantau Cenenedlaethol / National Warrant Processing Centre (NWPC) gan ddefnyddio ffurflen W5. Ar gyfer achosion o orddatgan, mae'n rhaid i ddeiliad y DAN wneud cais ysgrifenedig ar wahân i'r NWPC.

Gallwch osgoi cosbau ariannol drwy wneud yn siŵr eich bod wedi rhoi gwybodaeth gyflawn a chywir ar y ffurflen hon a'ch bod yn cyflwyno'r ffurflen ac yn talu'r doll erbyn y dyddiad cau. Mae gennych yr hawl i apelio os codwn gosbau.

## Gwerth ar gyfer TAW – arweiniad atodol o 1 Ionawr 2021

O 1 Ionawr 2021, bu newidiadau yn y ffordd y caiff TAW ei chyfrifo ar nwyddau sy'n dod i mewn i'r DU o'r UE neu o drydedd gwlad. Bydd angen defnyddio ffurflenni ar wahân, wedi'u nodi'n glir, yn manylu ar y gwahanol fath o dyniadau o warws ecséis. Rhestrir y rhain isod ar gyfer tynnu nwyddau o warysau Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

I gael arweiniad ynghylch defnyddio cyfrifyddu TAW ohiriedig, ewch i www.gov.uk/guidance/check-when-you-can-account-for-import-vat-on-your-vat-return.

I gael arweiniad ar sut i lenwi eich Ffurflen TAW wrth ddefnyddio cyfrifyddu TAW ohiriedig, ewch i www.gov.uk/guidance/complete-your-vat-return-to-account-for-import-vat

## Nwyddau sy'n cael eu tynnu o warws ecséis ym Mhrydain Fawr

**Nwyddau a ddaeth mewn i Brydain Fawr o'r UE cyn 1 Ionawr 2021, ac yn cael eu rhyddhau o ohiriad tollau mewn warws ecséis ar neu ar ôl 1 Ionawr 2021**

Mae nwyddau cylchrediad rhydd y GE yn destun gweithdrefnau TAW caffael. Yn yr achosion hyn, cwblhewch y blychau Gwerth/Cyfradd a nodwch 'TAW ACQ/ACQ VAT' yn y blwch TAW. Cofiwch gadw'r wybodaeth hon ar gyfer eich cofnodion.

Mae nwyddau cylchrediad rhydd y GE lle mae'r gofyn i roi cyfrif am TAW caffael wedi'i ddileu oherwydd bod y nwyddau'n cael eu cyflenwi tra'u bod mewn warws ym Mhrydain Fawr. Mae TAW cyflenwad yn ddyledus. Cwblhewch y blychau Gwerth/Cyfradd/Swm. Byddwch yn cael tystysgrif C79 i ategu eich hawliad am ddidyniad treth fewnosod.

**Nwyddau ddaeth i mewn i Brydain Fawr o'r UE neu o drydedd gwlad o dan reolau tollau, ac yn cael eu rhyddhau o ohiriad tollau mewn warws ecséis ar neu ar ôl 1 Ionawr 2021**

Os ydych am ddefnyddio cyfrifyddu TAW ohiriedig i ddatgan ac adennill TAW mewnforio ar eich Ffurflen TAW, cwblhewch y blychau Gwerth/Cyfradd a nodwch 'TAW ACQ/ACQ VAT' yn y blwch TAW. Cofiwch gadw'r wybodaeth hon ar gyfer eich cofnodion. Gwnewch y siŵr eich bod yn cadw tystiolaeth o sut rydych yn cyfrifo'r gwerth ar gyfer TAW a ddatganwyd. Bydd angen hwn arnoch i gwblhau eich Ffurflen TAW gan na fyddwch yn cael datganiad misol ar gyfer TAW mewnforio ohiriedig.

Os nad ydych am ddefnyddio cyfrifyddu TAW ohiriedig i ddatgan ac adennill TAW mewnforio ar eich Ffurflen TAW, cwblhewch y blychau Gwerth/Cyfradd/Swm. Byddwch yn cael tystysgrif C79 i ategu eich hawliad am ddidyniad treth fewnosod.

**Nwyddau a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr neu Ogledd Iwerddon a gyflenwir mewn warws ym Mhrydain Fawr**

Mae TAW cyflenwad yn ddyledus ar y cyflenwad olaf a wnaed mewn warws. Cwblhewch y blychau Gwerth/Cyfradd/Swm. Byddwch yn cael tystysgrif C79 i ategu eich hawliad am ddidyniad treth fewnosod.

## Nwyddau sy'n cael eu tynnu o warws ecséis yng Ngogledd Iwerddon

**Nwyddau sy'n dod i mewn i Ogledd Iwerddon o'r UE ac sy'n cael eu rhyddhau o ohiriad tollau mewn warws ecséis**

Ni fydd unrhyw newid i'r ffordd y caiff TAW ei chyfrifo. Mae hyn yn golygu pan fyddwch yn nodi 'TAW ACQ/ACQ VAT', mae'n golygu TAW caffael, ac mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei ddangos ar ffurflen ar wahân i gofnodion yn y categori nesaf.

**Nwyddau sy'n dod i mewn i Ogledd Iwerddon o drydedd gwlad o dan reolau tollau, ac yn cael eu rhyddhau o ohiriad tollau mewn warws ecséis ar neu ar ôl 1 Ionawr 2021**

Os ydych am ddefnyddio cyfrifyddu TAW ohiriedig i ddatgan ac adennill TAW mewnforio ar eich Ffurflen TAW, cwblhewch y blychau Gwerth/Cyfradd a nodwch 'TAW ACQ/ACQ VAT' yn y blwch TAW. Cofiwch gadw'r wybodaeth hon ar gyfer eich cofnodion. Gwnewch y siŵr eich bod yn cadw tystiolaeth o sut rydych yn cyfrifo'r gwerth ar gyfer TAW a ddatganwyd. Bydd angen hwn arnoch i gwblhau eich Ffurflen TAW gan na fyddwch yn cael datganiad misol ar gyfer TAW mewnforio ohiriedig.

Os nad ydych am ddefnyddio cyfrifyddu TAW ohiriedig i ddatgan ac adennill TAW mewnforio ar eich Ffurflen TAW, cwblhewch y blychau Gwerth/Cyfradd/Swm. Byddwch yn cael tystysgrif C79 i ategu eich hawliad am ddidyniad treth fewnosod.

**Nwyddau a gynhyrchir ym Mhrydain Fawr neu Ogledd Iwerddon a gyflenwir mewn warws yng Ngogledd Iwerddon**

Mae TAW cyflenwad yn ddyledus ar y cyflenwad olaf a wnaed mewn warws. Cwblhewch y blychau Gwerth/Cyfradd/Swm. Byddwch yn cael tystysgrif C79 i ategu eich hawliad am ddidyniad treth fewnosod.

Cyllid & Tollau EM

# Warws Ecséis
## Nodyn gohirio ar gyfer nwyddau alcohol

Darllenwch y nodiadau cyn i chi lenwi'r ffurflen hon.

Dyddiad O

I

Cyfeirnod olynol

DAN

| Manylion y perchennog | Manylion ceidwad y warws |
|---|---|
| Enw | Enw |
| Cyfeiriad | Cyfeiriad |
| | |
| | |
| Cod post | Cod post |

Rhif cofrestru y perchennog

Rhif cofrestru y datganydd, os yn wahanol i'r uchod

Cod warws

**At ddefnydd CThEF**

Dyddiad dod i law

Eitem hwyr *Iawn/Na

Mewngofnodi data

Wedi'i wirio gan

| Cyfrifiad y Doll Ecséis | | | |
|---|---|---|---|
| Math o dreth | Swm | Cyfradd y doll | Swm y Doll Ecséis £ |
| | • | • | • |
| | • | • | • |
| | • | • | • |
| | • | • | • |
| | • | • | • |
| | • | • | • |
| | • | • | • |
| | • | • | • |
| | • | • | • |
| | • | • | • |
| | | **Cyfanswm y Doll Ecséis** | • |

| Gwerth ar gyfer TAW | | Cyfradd TAW | Swm y TAW |
|---|---|---|---|
| 813 | • | • | • |

**Y cyfanswm terfynol sy'n ddyledus** •

**Datganiad**

Rwyf.................................................... yn datgan bod yr wybodaeth a nodwyd ar y ffurflen hon yn gywir ac yn
(enw mewn priflythrennau)
gyflawn ac yn gwneud cais i ohirio'r doll ac unrhyw TAW sy'n ddyledus, yn erbyn y rhif cymeradwyo a ddangosir.

Llofnod .................................................... Rhif ffôn....................................................
*Perchennog/partner/cyfarwyddwr neu berson ag awdurdod priodol *dilëwch fel y bo'n briodol

Cyllid & Tollau EM

# Warws Ecséis
## Nodyn gohirio ar gyfer nwyddau alcohol

Darllenwch y nodiadau cyn i chi lenwi'r ffurflen hon.

Dyddiad O

I

Cyfeirnod olynol

DAN

| Manylion y perchennog | Manylion ceidwad y warws |
|---|---|
| Enw ........ | Enw ........ |
| Cyfeiriad ........ | Cyfeiriad ........ |
| ........ | ........ |
| ........ | ........ |
| ........ Cod post ........ | ........ Cod post ........ |

Rhif cofrestru y perchennog

Rhif cofrestru y datganydd, os yn wahanol i'r uchod

Cod warws

**Cyfrifiad y Doll Ecséis**

| Math o dreth | Swm | Cyfradd y doll | Swm y Doll Ecséis £ |
|---|---|---|---|
| | . | . | . |
| | . | . | . |
| | . | . | . |
| | . | . | . |
| | . | . | . |
| | . | . | . |
| | . | . | . |
| | . | . | . |
| | . | . | . |
| | . | . | . |
| | | **Cyfanswm y Doll Ecséis** | . |

| **Gwerth ar gyfer TAW** | | **Cyfradd TAW** | **Swm y TAW** |
|---|---|---|---|
| 8 1 3 | . | . | . |

| **Y cyfanswm terfynol sy'n ddyledus** | . |
|---|---|

**At ddefnydd CThEF**

Dyddiad dod i law

Eitem hwyr *Iawn/Na

Mewngofnodi data

Wedi'i wirio gan

........

**Datganiad**

Rwyf........ yn datgan bod yr wybodaeth a nodwyd ar y ffurflen hon yn gywir ac yn
(enw mewn priflythrennau)
gyflawn ac yn gwneud cais i ohirio'r doll ac unrhyw TAW sy'n ddyledus, yn erbyn y rhif cymeradwyo a ddangosir.

Llofnod ........ Rhif ffôn ........
*Perchennog/partner/cyfarwyddwr neu berson ag awdurdod priodol *dilëwch fel y bo'n briodol